**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSGOL GYNRADD LLANDDOGED NOS LUN 24ain o FAI, 2021**

**PRESENNOL**
Cyng. Arwel L.Jones (Cadeirydd), Cyng. John Owen, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Anwen Jones,
Cyng. Eifion Williams Cyng. Hefin Martin, Cyng. Alun Morris, Delyth Algieri (clerc).

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod a diolchodd i Gyng Eifion Williams am ei wasanaeth yn y gadair hefyd i Gyng Nerys Dobson am ei gwasanaeth hithau fel cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar y Corff Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanddoged.

**YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Dylan Jones, Cyng Austin Roberts

**CADARNHAU'R COFNODION**
Cadarnhawyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 26ain o Ebrill, 2021.

**ARWYDD 'DIM PARCIO DROS NOS' AR GYFER Y MAES PARCIO CEGIN WEN**
Cadarnhaodd y clerc fod yr arwydd 'Dim Parcio Dros Nos' wedi ei osod wrth fynedfa y maes parcio Gegin Wen ac y bydd siec o £45 yn cael ei anfon i'r cwmni 'Conwy Signs' am cynhyrchu.

**BWRDD PICNIC CAE CHWARAE MAENAN**
Pasiwyd ac eilwyd i Gyng John Owen gysylltu gyda Wynnstay Llanrwst i archebu bwrdd picnic newydd ar gyfer cae chwarae Maenan am £332 + TAW. Bydd trefniadau yn cael eu rhoi yn ei le i osod y bwrdd picnic yn y cae chwarae.

**CYNNAL A CHADW MAES PARCIO GEGIN WEN A MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH**
Derbyniwyd amcamgyfrif o £300 gan Mr Elwyn Williams Tyn Gwern Llanddoged i gynnal a chadw y ddau faes parcio dros y flwyddyn. Pasiwyd aelodau y Cyngor drwy godi ei dwylo i dderbyn y pris yma gan Mr Williams.

**CYMERADWYO CYFRIFON Y CYNGOR SYDD YN DIWEDDU 31ain Mawrh, 2012**
Cymeradwyodd aelodau y cyngor cymuned drwy godi ei dwylo y cyfrifon sydd yn diweddu 31ain Mawrth, 2021. Yn dily yr archwiliwr mewnol Cyfrifydd Iona Edwards Llanrwst bydd y clerc yn anfon y cyfrifon ymlaen at yr Archwiliwyr allanol

**CYNNAL A CHADW**
1) Tyllau ar y ffordd rhwng Hanner Ffordd a Ysgol Maenan.
2) Twll yn ffordd Allt Goch, Llanddoged.
3) Tylllau yn y ffordd ar y Ffordd Bryn Saith, Llanddoged.
4) Tyllau y ffordd rhwng Fron Francis a Glasfryn, Llanddoged

**CYLLID**

Cyfrif Cyfredol - £3,278.82 Cyfrif Cadw - £2,976.19

Arwyddwyd (Cadeirydd) …………………………… Dyddiad ……………………………………………………………………………